- Mae hawl gan ofalwyr i wneud cais am asesiad o'u hanghenion eu hunain hyd yn oed pan nad yw'r person y maent yn gofalu yn ei gylch yn meddu ar asesiad ofal cymunedol
- Yn cydnabod gofalwyr sydd yn rhieni a'u hawl i gael asesiad gofalwyr
- Yn rhoi pwerau i gynghorau i ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i ofalwyr, eu cefnogi yn eu rôl gofalu a'u cynorthwyo i gynnal eu hiechyd a lles eu hunain
- Mae modd darparu taliadau uniongyrchol i ofalwyr i dderbyn eu gwasanaethau eu hunain er mwyn diwallu anghenion sydd wedi eu hasesu.

## Deddf Gofalwyr

### (Cyfleodd Cyfartal) 2004

Prif elfennau'r Ddeddf:

- Gosod dyletswydd ar gynghorau i roi gwybod i ofalwyr am eu hawl i dderbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain
- Os ydy gofalwr yn gwneud cais am asesiad, rhaid i'r cyngor i gynnal asesiad ac ystyried anghenion y gofalwr o safbwynt cyflogaeth, addysg a gweithgareddau hamdden
- Rhoi pwerau i'r cyngor i ofyn am gymorth gan gyrff eraill gyda'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau i ofalwyr.

## Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r hawl i ofalwyr i wneud cais am weithio'n hyblyg. O dan y Ddeddf hon, mae gofalwr yn cael ei ddiffinio fel rhywun sydd yn disgwyl neu yn disgwyl gofalu am:

- Ei wraig neu'r gŵr neu rywun sydd yn bartner iddynt neu yn bartner sifil
- Rhywun sydd yn berthynas agos (gan gynnwys rhiant, rhiant yng nghyfraith, plentyn, brawd a chwaer, ewythrod, modrybedd, dad-cu a mam-gu a pherthnasau-llys)
- Rhywun na sydd yn disgyn i'r naill categori na'r llall ond sydd yn byw yn yr un cyfeiriad â'r gofalwr.

# CAMAU NESAF

## Deilliannau

### Cynllun Gweithredu

Bydd unigolyn arweiniol o'r Rhwydwaith Gofalwyr yn cael ei bennu er mwyn hyrwyddo pob un amcan strategol o'r strategaeth a chydlynu'r broses o greu cynllun gweithredu manwl. Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth y strategaeth hon yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr amcanion strategol yn cael eu gweithredu.

### Custody cyllid

Bydd y Strategaeth yn llywio'r broses o glustnodi'r cyllid sydd ar gael i wasanaethau Ofalwyr ym Merthyr Tudful.

### Monitro

Bydd Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful yn cyflogi swyddog datblygu gofalwyr a fydd yn cydlynu datblygiad y strategaeth hon a chasglu tystiolaeth gan ddarparwyr gwasanaeth. Bydd angen i bob gwasanaeth o dan gontract ddarparu tystiolaeth ar sut y mae'r mudiad wedi cyfrannu i nodau, amcanion a'r dangosyddion perfformiad allweddol gan gynnwys y modd y mae gofalwyr yn chwarae rhan mewn datblygiad a gwelliant gwasanaeth.

### Trefniadau adrodd

Y rhwydwaith Gofalwyr fydd y ddolen gyswllt ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn pob un nod allweddol. Bydd y prif swyddogion dynodedig yn cyfathrebu gyda'r holl fudd-ddeiliaid allweddol er mwyn casglu tystiolaeth ac adrodd i'r rhwydwaith Gofalwyr bob chwarter. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei lunio a'i gyflwyno i'r partneriaid/partneriaethau strategol allweddol ym mhob blwyddyn ariannol.

Bydd holl weithredoedd y dyfodol sydd yn cael eu hystyried yn y strategaeth hon yn cael eu hadolygu'n flynyddol drwy ddigwyddiadau ymgynghori lleol gyda gofalwyr ac yn cael eu beirniadu ar ba mor llwyddiannus y mae'r partneriaid wedi cyflawni'r deilliannau sydd wedi eu datgan.

# MESUR CYNNYDD Y STRATEGAETH

Bydd llwyddiant y Strategaeth Gofalwyr yn cael ei fesur yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi eu cytuno ar y cyd gyda gwasanaethau gofalwyr ym Merthyr Tudful.

Mynediad at Wasanaethau	Barn cwsmeriaid/Gwasanaethau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynyddu'r nifer o bobl sydd yn derbyn gwybodaeth a chyngor cyffredinol i 40 y flwyddyn</li> <li>• O leiaf 200 o ofalwyr i ymgysylltu a chwarae rhan weithgar mewn gweithgareddau dysgu gydol oes.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 5 asiantaeth i fabwysiadu'r siarter gofalwyr erbyn 2017</li> <li>• 70 o ofalwyr ifanc i feddu ar gynllun pontio.</li> <li>• 50 o holiaduron defnyddwyr gwasanaeth i'w cwblhau yn flynyddol. (250 – oes y strategaeth)</li> </ul>
Cyflenwi	Amcanion Partneriaeth/Strategol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• 496 o asesiadau Gofalwyr wedi eu cwblhau ym 2010/2011 yn cynyddu i 10% (50) y flwyddyn dros y bum mlynedd nesaf (800)</li> <li>• 50 o Ofalwyr yn mynd i gael eu cefnogi i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith yn ystod oes y strategaeth.</li> <li>• 2 Meddygfa Teulu i'w targedu pob blwyddyn er mwyn atgyfeirio gofalwyr i'r swyddog datblygu gofalwyr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr holl Ysgolion uwchradd i gofnodi a yw disgybl yn ofalwr ifanc erbyn 2014.</li> <li>• I gynnal 2 sesiwn hyfforddi y flwyddyn er mwyn gwella'r broses o adnabod gofalwyr i weithwyr proffesiynol sydd yn cysylltu'n gyson gyda phobl ifanc y tu allan i'r ysgol.</li> <li>• O leiaf 300 o atgyfeiriadau yn cael eu derbyn ar draws y rhwydwaith gofalwyr.</li> </ul>
Ansawdd	Defnyddio adnoddau
<ul style="list-style-type: none"> <li>• O leiaf 50% o ofalwyr ifanc swyddogol yn derbyn cymorth i ddatblygu sgiliau ymdopi.</li> <li>• O leiaf 800 o ofalwyr wedi cofrestru ar gronfa ddata ganolog – gan gynnwys swift.</li> <li>• 70 o ofalwyr ifanc i feddu ar gynllun pontio</li> <li>• I siarter Gofalwyr yn cael ei gynhyrchu a'i gytuno</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu Technoleg Gynorthwyol er mwyn rheoli perygl a fydd yn cefnogi gosod 5 o osodiadau'r flwyddyn ar gyfer gofalwyr sydd yn gweithio.</li> <li>• Hyfforddiant ymwybyddiaeth blynyddol megis symud a thrin i fod ar gael i bob gofalwr erbyn 2017.</li> </ul>

## AMCAN 6

### Ymgynghori ac Ymgysylltu.

**Nod Hirdymor:** Erbyn 2015, bydd y Rhwydwaith Gofalwyr yn medru dangos yn eglur bod gofalwyr yn chwarae mwy o ran mewn rôl ymgynghorol ar faterion strategol ehangach megis cynllunio, recriwtio a hyfforddi, comisiynu a chlustnodi cyllid Gofalwyr.

### Rhai canfyddiadau allweddol o'r ymchwil ac ymgynghori â Gofalwyr

- Mae cynllunio, ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol yn allweddol o ran creu cynllunio da a fydd yn diwallu anghenion amrywiol y Gofalwyr.
- Gofalwyr sydd yn gwybod orau sut i drafod anghenion Gofalwyr, ac o'r herwydd, dylid rhoi'r cyfle iddynt i gynnig sylwadau ar yr holl feysydd a materion sydd yn effeithio arnynt.
- Dylai'r Gofalwyr hynny sydd wedi eu hymgynghori dderbyn adborth amserol a phriodol fel bod modd dangos bod eu barn wedi cynorthwyo i lywio datblygiadau gwasanaeth.
- Mae'r Mesur Gofalwyr Cymru (2010) yn gosod dyletswyddau newydd ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i baratoi strategaeth ar gyfer ymgysylltu â Gofalwyr.
- Mae'r Ddeddf Gofal Cymunedol GIG 1990 yn amlygu, fel amcan strategol, y dylai darparwyr gwasanaeth wneud cefnogaeth ymarferol i ofalwyr yn flaenoriaeth uchel a dylai awdurdodau lleol ymgynghori gyda defnyddwyr a gofalwyr ynghylch sut y mae eu hanghenion yn cael eu hasesu a sut y mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio.

Byddwn yn ymgymryd â'r canlynol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu dynodi yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn diwallu anghenion amrywiol Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) ym Merthyr Tudful:

1. Bydd y Rhwydwaith Gofalwyr yn hyrwyddo'r broses o weithredu'r Arweinlyfr Ymgynghoriad y Rhaglen Gwelliant Parhaus yn flynyddol er mwyn sicrhau bod gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn chwarae rhan effeithiol.
2. Sicrhau bod yr holl ddarparwyr gwasanaeth sydd yn cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol yn meddu ar drefniadau monitro cytundeb cadarn sydd yn dangos yn eglur bod gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn chwarae rhan weithgar yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau erbyn Ebrill 2013
3. Bydd yr holl ddigwyddiadau ymgynghori yn sicrhau bod y gofalwyr hynny sydd yn chwarae rhan weithgar yn derbyn adborth mewn modd hygyrch ac amserol yn flynyddol.
4. Erbyn 2017, cynyddu'r nifer o unigolion sydd yn ymgysylltu gyda'r broses asesu Gofalwyr ffurfiol.
5. Bydd y Gofalwyr yn chwarae rhan yn y broses o gynllunio'r modd y mae'r person y maent yn gofalu yn ei gylch yn gadael yr ysbyty.
6. Erbyn 2015, cynyddu'r nifer o ofalwyr sydd yn cael mynediad at wasanaethau eiriolaeth a'u hadolygu'n flynyddol.
7. Parhau i ddatblygu systemau er mwyn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn chwarae rhan ym mhob un proses o wneud penderfyniadau ar faterion sydd yn effeithio ar eu bywydau.

## AMCAN 5

### Pontio a Chynhwysiant Cymdeithasol

#### Nad Hirdymor

Erbyn 2015, bydd y Rhwydwaith Gofalwyr wedi sicrhau ymrwymiad gan yr holl rann-ddeiliaid allweddol i ddatblygu a gweithredu cynllun pontio sydd yn seiliedig ar y person a'r deilliannau ac sydd hefyd yn annog mwy o gynhwysiant cymdeithasol.

#### Rhai canfyddiadau allweddol o'r ymchwil ac ymgynghori â Gofalwyr

- Mae'n cael ei gydnabod fod Gofalwyr ifanc yn meddu ar anghenion cymorth penodol sy'n wahanol i Ofalwyr sydd yn oedolion.
- Pan fo'r person sydd yn cael ei ofalu amdano yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, mae hyn yn medru cyflwyno heriau gwahanol ac unigryw i nifer o ofalwyr.
- Mae yna angen i ganolbwyntio ar ddarparu cefnogaeth fwy effeithiol i ofalwyr a'r bobl ifanc y maent yn gofalu yn eu cylch, i gynorthwyo'r sawl sydd yn derbyn y gofal i ddatblygu annibyniaeth, hunanofal, cyfranogiad cymdeithasol priodol, cyflogaeth, hyfforddiant, addysg bellach a gwelliant personol.
- Mae'n anodd weithiau i ofalwyr i gamu nôl a 'gadael fynd'.
- Mae yna ystyriaethau hefyd i Ofalwyr sydd yn symud o fod yn Ofalwyr i fod yn gyn-ofalwyr ac mae hyn yn newid ynddo'i hun.

Byddwn yn ymgymryd â'r canlynol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu dynodi yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn diwallu anghenion amrywiol Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) ym Merthyr Tudful:

1. Datblygu llwybr cyflogaeth ar gyfer gofalwyr ifanc drwy gysylltu gwasanaethau cymorth i'r prosiect Pontio i Gyflogaeth erbyn Mawrth 2013.
2. Gweithio gyda phartneriaid perthnasol er mwyn gwella cynhwysiant ar gyfer gofalwyr a'r sawl sydd yn derbyn y gofal, a hynny mewn gweithgareddau sydd yn seiliedig ar y gymuned, dysgu yn seiliedig ar waith, addysg bellach a chyflogaeth.
3. Datblygu gwasanaeth cymorth mentora cyfaill sydd yn caniatáu i ofalwyr newydd a chyfredol i ddysgu o brofiadau cyn-ofalwyr a gofalwyr newydd erbyn Mawrth 2013.
4. Sicrhau bod yr holl ofalwyr ifanc yn meddu ar gynllun pontio ysgol sydd yn cydnabod eu rôl gofalu erbyn Medi 2014.
5. Sicrhau bod gwasanaethau statudol a gwasanaethau dan gontract/grant yn meddu ar gyfnod pontio fel rhan o'u trefniadau cynllunio.

## AMCAN 4

### Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

**Nod Hirdymor:** Erbyn 2016, bydd strwythurau cefnogi wedi eu sefydlu ar gyfer yr holl ofalwyr a fydd yn eu caniatáu i gael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ogystal â chynnal eu lles personol, cymdeithasol ac economaidd.

#### **Rhai canfyddiadau allweddol o'r ymchwil ac ymgynghori â Gofalwyr**

- Mae Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006 yn amlinellu'r hawl i ofalwyr i wneud cais am weithio hyblyg
- Dylai gwybodaeth am arferion gweithio'n hyblyg a deddfwriaeth gyfredol fod yn rhan o'r cyngor sydd yn cael ei roi i ofalwyr yn ystod y cam asesu.
- Mae cyfrifiad 2001 yn awgrymu bod yna berthynas rhwng gofalu a bod heb waith. O ganlyniad, mae llawer o ofalwyr yn byw mewn aelwydydd lle nad oes neb yn gweithio.
- Mae yna bwysau ychwanegol ar ofalwyr sydd yn ceisio cael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth megis:
- Yr anallu i fedru fforddio talu am ofal er mwyn ymgymryd â gweithgareddau sydd yn medru eu cynorthwyo i ddychwelyd i'r gwaith,
- Anhyblygrwydd rhai cyflogwyr o safbwynt y rôl gofalu a'r cyfnodau i ffwrdd o'r gwaith sydd eu hangen ar sail ad-hoc er mwyn cefnogi'r sawl sydd yn derbyn y gofal,
- Y caledi ariannol a ddaw weithiau yn sgil dychwelyd i'r gwaith.
- Mae yna angen i ddarparu hyfforddiant priodol ar sefyllfaoedd sydd yn ymwneud â'u rôl gofalu.
- Mae pedwar mewn deg o blant sydd yn gofalu am rywun sydd yn

camddefnyddio cyffuriau neu alcohol yn meddu ar drafferthion addysgol.

- Mae colli cyfleoedd addysg yn ffactor allweddol i les personol, cymdeithasol, addysgol ac economaidd nifer o ofalwyr ifanc.
- Mae gofalu yn effeithio ar berthnasau teuluol, ar weithgareddau cymdeithasol a hamdden sydd yn ei dro yn medru effeithio ar iechyd a lles Gofalwyr.

Byddwn yn ymgymryd â'r canlynol er mwyn sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu dynodi yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn diwallu anghenion amrywiol Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) ym Merthyr Tudful:

1. Erbyn Mawrth 2017, darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer o leiaf 50 o Ofalwyr a fydd yn eu galluogi i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
2. Cynyddu'r cymorth i leaf o 200 o ofalwyr er mwyn eu caniatáu i ymgysylltu a chwarae rhan weithgar mewn gweithgareddau dysgu gydol oes erbyn 2017.
3. Annog arferion gweithio'n hyblyg a gwybodaeth i weithwyr sydd â rôl gofalu.
4. Erbyn Mawrth 2015, datblygu strwythur cymorth sydd yn annog dysgu rhyng-genedlaethol drwy'r rôl gofalu.
5. Cefnogi anghenion hyfforddi o leiaf 150 o ofalwyr ifanc fel eu bod yn medru cymryd mantais lawn o'r holl gyfleoedd ar gyfer cyflawniadau addysgol a llwyddiannau bywyd erbyn 2017.

## AMCAN 3

### Cymorth ar gyfer Iechyd a Lles Gofalwyr

**Nod Hirdymor:** Bydd modd i ofalwyr i gael gafael ar gymorth priodol sydd yn ymestyn ar draws ystod o anghenion drwy ddatblygu gwasanaethau ataliol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chynnal iechyd a lles.

#### Rhai canfyddiadau allweddol o'r ymchwil ac ymgynghori â Gofalwyr

- Mae'n hanfodol i gefnogi iechyd a lles gofalwyr er mwyn lleihau'r nifer o ofalwyr sydd yn cyrraedd y pwynt argyfwng.
- Mae gofalwyr sydd yn hapus ac yn iach yn llai tebygol o brofi methiannau sydd yn eu hatal rhag gofalu.
- Mae goddefgarwch gofalwyr yn medru amrywio ac nid yw'r rhai hynny sydd yn derbyn pecynnau sylweddol o ofal bob amser yn llai tebygol o gyrraedd y pwynt argyfwng.
- Mae'n hanfodol fod anghenion Gofalwyr yn cael eu hasesu yn unigol.
- Mae yna bron i 230,000 o Ofalwyr Oedolion Ifanc (YAC) sydd rhwng 18 a 24 yn y DU (mwy na 5% o'r holl bobl sydd yn y grŵp oedran hwnnw) ac mae chwarter o'r rhain yn darparu gofal am fwy na 20 awr yr wythnos.
- Er mwyn osgoi unrhyw fethiant i ofalu, nid oes angen o reidrwydd i drefnu pecyn sylweddol o anghenion cymorth.
- Mae anghenion gofalwyr sydd wedi eu hadnabod o'r pwys mwyaf wrth asesu pa gymorth sydd angen er mwyn cynnal eu hiechyd a lles.
- Roedd gofalwyr ifanc cyfredol wedi gofyn bod blaenoriaeth yn cael ei osod ar glybiau a hyfforddiant ar ôl ysgol.
- Byddwn yn ymgymryd â'r canlynol er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu dynodi yn y ffordd fwyaf effeithiol posib er mwyn diwallu anghenion amrywiol

Gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr ifanc) ym Merthyr Tudful:

1. Cynyddu'r nifer o Ofalwyr sydd yn chwarae rhan weithgar yn y broses flynyddol o asesu Gofalwyr.
2. Cynyddu'r nifer o ofalwyr sydd yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi yn flynyddol.
3. Adolygu'r ddarpariaeth seibiant presennol ac adnabod meysydd i wella erbyn mis Hydref 2013.
4. Datblygu Siarter Gofalwyr er mwyn dwyn ynghyd yr hyn y mae Gofalwyr yn medru ei ddisgwyl a llywio gwasanaethau ar draws mudiadau sydd o fewn y fwrdeistref erbyn Ebrill 2014.
5. Cymorth i Ofalwyr i gydnabod eu rôl fel arbenigwyr / partneriaid a'u cyfraniad ehangach i gymdeithas.
6. Cysylltu ag o leiaf un gwasanaeth yn flynyddol y tu allan i lechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu rôl yn cynorthwyo gofalwyr.
7. Erbyn Mawrth 2013, adolygu gwasanaethau i ofalwyr ifanc gan gynnwys cymorth i Deuluoedd er mwyn sicrhau bod:-
  - Darpariaeth cefnogaeth ar gael.
  - Cynlluniau gofal unigol yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol sydd yn arwain at bobl ifanc yn dod yn ofalwyr.



## AMCAN 2

### Gofalwyr a Chydnabod Eu Cyfraniadau

**Nod Hirdymor:** Erbyn 2016, bydd adnabyddiaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well gan ddarparwyr gwasanaeth a'r Rhwydwaith Gofalwyr o'r rôl bwysig a chwaraeir gan Ofalwyr.

#### Rhai canfyddiadau allweddol o'r ymchwil ac ymgynghori â Gofalwyr

- Drwy'r Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000, mae yna ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu anghenion Gofalwyr eu hunain pan fydd yna asesiad neu ailasesiad o'r person y maent yn gofalu yn ei gylch yn cael ei gynnal.
- Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu fod yna nifer sylweddol o ofalwyr yn y fwrdeistref na sydd wedi eu cofrestru.
- Mae yna angen i wella mecanweithiau ar gyfer adnabod gofalwyr.
- Mae yna angen i wella gwybodaeth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd mewn addysg gynradd ac mewn addysg uwchradd.
- Er mwyn llywio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol, mae angen sicrhau bod gofalwyr yn chwarae rhan lawn er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei datblygu sydd yn diwallu eu hanghenion amrywiol.
- Mae gofalwr ifanc yn berson ifanc sydd o dan 18 mlwydd oed. Mae gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod fel gofalwyr o fod yn bum mlwydd oed ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- Nid oes modd ymgymryd â chynllunio strategol priodol tra bod yna fwyafrif sylweddol o 'Ofalwyr cudd'.

Byddwn yn gweithredu'r canlynol er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu dynodi yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn diwallu anghenion Gofalwyr (gan gynnwys Gofalwyr Ifanc) ym Merthyr Tudful:

1. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn sefydlu protocol partneriaeth a gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a chofrestru gofalwyr wrth weithio gyda theuluoedd erbyn Mawrth 2013.
2. Adolygu'r broses o asesu gofalwyr a datblygu cynllun gweithredu erbyn Hydref 2012 a fydd yn annog mwy o bobl i fanteisio ar y gwasanaethau.
3. Targedu isafswm o bum mudiad dros oes y strategaeth sydd angen datblygu arferion gweithio hyblyg ar gyfer staff sydd â rôl gofalu.
4. Datblygu cofrestr o ofalwyr ifanc o fewn yr holl ysgolion erbyn Hydref 2013.
5. Parhau i hyrwyddo cyfraniad Gofalwyr drwy gynhyrchu cylchlythyron a Seremoni Wobrwyo Flynyddol Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.
6. Diweddarau'r wybodaeth yn flynyddol am anghenion Gofalwyr a sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu ymhlith yr holl fudiadau perthnasol.
7. Codi proffil Gofalwyr Ifanc drwy drefniadau adnabod gwell fel bod Gofalwyr Ifanc yn adnabyddus i asiantaethau, gan gynnwys ysgolion, a hynny llawer iawn ynghynt.
8. Cynorthwyo staff iechyd i adnabod gofalwyr drwy godi ymwybyddiaeth a thrwy hyfforddiant blynyddol.

# AMCAN 1

## Gwybodaeth a Chyngor

**Hirdymor:** Sicrhau bod gofalwyr yn derbyn y wybodaeth sydd angen arnynt sydd yn eglur, yn gyfoes ac ar gael yn hawdd mewn amryw o fformatau a bod gofalwyr ym mhob rhan o gymdeithas yn medru cael mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chefnogaeth briodol.

### Rhai canfyddiadau allweddol o'r ymchwil ac ymgynghori â Gofalwyr

- Angen i wella gwybodaeth a chyngor i Ofalwyr
- Gwybodaeth gyfredol / cyfeirlyfr o wasanaethau wedi dyddio
- Roedd gofalwyr o'r farn fod y broses taliadau uniongyrchol bresennol yn cymryd llawer iawn o amser ac yn anodd ei deall.
- Gwybodaeth am y pontio o Blant i Oedolaeth yn anghyson
- Mae'r Mesur Gofalwyr yn gosod dyletswyddau newydd ar y Byrddau lechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i lunio strategaethau gwybodaeth i Ofalwyr a strategaeth ar gyfer ymgysylltu gyda gofalwyr.
- Os yw gofalwyr yn cael gafael ar wybodaeth dda, mae hyn yn eu caniatáu i wneud dewisiadau gwell, a hynny felly yn lleihau'r methiannau sydd yn bosib eu hosgoi mewn trefniadau cymorth.

Mae'r amcanion canlynol wedi eu hanelu i sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu dynodi yn y ffordd fwyaf priodol er mwyn diwallu anghenion amrywiol Gofalwyr (gan gynnwys Gofalwyr Ifanc) ym Merthyr Tudful:

1. Adolygu hygyrchedd gwybodaeth a gwasanaethau i Ofalwyr gan ystyried anghenion amrywiol y rhai hynny sydd ag anableddau dysgu neu nam corfforol
2. Adnabod un maes allweddol yn flynyddol lle y mae polisïau a strategaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol angen eu gwella er mwyn ystyried anghenion Gofalwyr.
3. Cynyddu'r nifer o feddygfeydd gan Feddygon Teulu bob blwyddyn sydd yn meddu ar Eiriolwr dros Ofalwyr ac adnabod mudiadau allweddol a fyddai yn elwa o ddatblygu rôl eiriolwr dros ofalwyr.
4. Sicrhau bod gwybodaeth gyson a chynhwysfawr ar gael i Ofalwyr drwy'r holl ddarpariaethau sydd o dan gontract.
5. Datblygu protocol cyfun sydd yn cefnogi pontio didrafferth o blentyndod i oedolaeth erbyn Mawrth 14.
6. Datblygu deunydd hyrwyddo a hyrwyddo hawliau Gofalwyr i'r gymuned ehangach a monitro'r nifer o Ofalwyr sydd yn cofrestru am asesiadau Gofalwyr yn flynyddol.
7. Datblygu canllaw cymorth sydd yn adnabod mecanweithiau a fyddai yn caniatáu i Ofalwyr i ofalu am eu lles personol, cymdeithasol ac economaidd erbyn Ebrill 12.
8. Datblygu canllaw i ofalwyr sydd yn rhieni ar gyfer pontio pobl ifanc a chynllunio pontio erbyn Mawrth 2014.
9. Bwrdd lechyd Lleol Cwm Taf i sefydlu dull sydd wedi'i gydlynu ac yn gyson tuag at y wybodaeth a'r cyngor sydd yn cael eu darparu ar draws Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn unol â'r Mesur Gofalwyr 2011 erbyn Hydref 2013.

# AMCANION STRATEGOL AR GYFER GOFALWYR

Mae amcanion y strategaeth yn cael eu manylu isod.

## AMCAN 1

### I ddarparu gwybodaeth a chynngor perthnasol

Gwella cyfathrebu ac adnabod prosesau effeithiol er mwyn cael gafael ar wybodaeth.

## AMCAN 2

### Adnabod gofalwyr a chydabod eu cyfraniadau

Mae'r Rhwydwaith Gofalwyr yn anelu i adnabod gofalwyr a chydabod eu hanghenion a'u cyfraniadau.

## AMCAN 3

### Darparu cymorth i ofalwyr a sicrhau eu hiechyd a lles

Sicrhau bod y cymorth sydd ar gael wedi'i dargedu at ofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn iach mewn cyd-destun meddyliol a chorfforol drwy gydol eu rôl gofalu.

## AMCAN 4

### Annog mwy i fanteisio ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Bydd hyfforddiant priodol yn cael ei gynnig ar gyfer y sgiliau gofalu uniongyrchol sydd eu hangen gyda hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gynnig er mwyn annog mwy i gymryd rhan mewn dysgu gydol oes, cynhwysiant a chyflogaeth.

## AMCAN 5

### Gwella trefniadau pontio a chynhwysiant cymdeithasol

Bydd trefniadau pontio yn cael eu gwneud yn eglur er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth well ar gyfer trefniadau pontio rhwng defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a gwasanaethau.

## AMCAN 6

### Gwella ymgysylltiad ac ymgynghoriad gyda gofalwyr.

Bydd y Rhwydwaith Gofalwyr yn datblygu cyfleoedd sydd yn hyrwyddo bod defnyddwyr a gofalwyr yn chwarae rhan ac ymgysylltu yn y broses o gomisiynu a gwerthuso darpariaeth gwasanaethau.

# DATGANIAD GWELEDIGAETH

## Y Weledigaeth ar gyfer Gofalwyr ym Merthyr Tudful yw:

*'erbyn 2017, byddwn yn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n gyffredinol fel rhan sylfaenol o deuluoedd cryf a chymunedau sefydlog.*

*Lle bynnag bo'n bosibl, bydd cefnogaeth yn cael ei theilwra er mwyn diwallu anghenion unigol, yn caniatáu i ofalwyr i daro cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau gofalu a bywyd ystyrlon y tu hwnt i ofalu'*

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth sydd wedi ei hamlinellu yn y strategaeth, bydd darpariaeth y gwasanaethau yn seiliedig ar ddull aml-asiantaeth a phartneriaeth.

Bydd angen trawstoriad o asiantaethau i ymrwymo i ddarparu'r strategaeth gan gynnwys y rhai hynny sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl iechyd a gofal cymdeithasol megis mudiadau'r trydydd sector a chyflogaeth.

Mae rôl gan bob un i'w chwarae er mwyn caniatáu i ofalwyr a'r rhai sydd yn derbyn y gofal i fyw mor annibynnol ag sydd yn bosib, gan gynnal ansawdd da o ran bywyd.

Mae'r strategaeth hon yn ddogfen fyw sydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'r deilliannau adnabyddedig yn cael eu gwerthuso.

Bydd yn ystyried anghenion esblygol poblogaeth Merthyr Tudful a blaenoriaethau asiantaethau statudol a phartner.

Bydd gofalwyr yn cael eu hannog i chwarae mwy o ran wrth fonitro cynnydd a llywio darpariaeth gwasanaeth gan gynnwys y modd y caiff y Mesur Gofalwyr newydd ei ddatblygu a'i weithredu.

Cydnabyddir bod rhai o anghenion oedolion a phobl ifanc yr un fath a bydd rhai ohonynt yn wahanol. O'r herwydd, er mwyn sicrhau bod modd mynd i'r afael â'r ddau grŵp targed yn ddigonol, mae'r strategaeth hon yn adnabod yn eglur y ffocws oedran ar gyfer pob un amcan.

## RHAGAIR

### Croeso i Strategaeth Gofalwyr Merthyr Tudful 2012 – 2017


Mae gofalwyr yn chwarae rhan hanfodol a chanolog o ran darparu gofal, gan wneud cyfraniad enfawr wrth gefnogi pobl yn y gymuned. Mae gofalwyr o bob oedran yn treulio rhan sylweddol o'u hamser gwerthfawr ac egni eu hunain yn gofalu am bobl sydd yn agored i niwed.

Mae gofalwyr yn rhan bwysig o'r modd yr ydym yn datblygu gofal a chefnogaeth ym Merthyr Tudful ac rydym yn ffodus i gael Rhwydwaith Strategaeth Gofalwyr ffyniannus. Mae'r rhwydwaith yn darparu tystiolaeth ar gyfer cynllunio ac mae angen datblygu gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen ar ofalwyr ymhellach. Mae'r rhwydwaith hefyd yn darparu llwyfan i ddatblygu partneriaeth rhwng gofalwyr, mudiadau gwirfoddol a statudol. Wrth weithredu'r strategaeth hon, gofynnir i bobl broffesiynol a mudiadau i ystyried y teulu fel elfen gyflawn wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau i gefnogi gofalwyr.


Yn fwy pwysig, roedd gofalwyr a mudiadau gofalwyr wrth wraidd datblygu'r strategaeth hon ac mae'r prif faterion ar gyfer gofalwyr ym Merthyr Tudful wedi eu hadnabod fel y gall y Rhwydwaith ganolbwyntio arnynt dros y bum mlynedd nesaf.

Fel partneriaid, rydym wrth ein bodd yn cymeradwyo Strategaeth Gofalwyr Merthyr Tudful sydd yn anelu i sicrhau bod gofalwyr yn medru cael gafael ar yr help a'r gefnogaeth sydd angen arnynt er mwyn parhau yn eu rôl gofalu tra'n mwynhau bywyd ystyrllon eu hunain ar yr un pryd.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi yn y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth ofalu am eraill. Rydym yn cydnabod fod yna gryn waith i'w wneud eto ar ran gofalwyr a gobeithiwn y bydd y strategaeth hon yn sicrhau deilliannau gwell i bawb.




**Cynghorydd Bill Smith**  
**Aelod Portffolio**  
**Gwasanaethau Cymunedol/Eiriolwr dros Ofalwr**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**



**Ian Davy**  
**Prif Swyddog**  
**Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful**  
**Merthyr Tudful**



**Giovanni Isingrini**  
**Cyfarwyddwr**  
**Gwasanaethau Cymunedol/**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**



**Nicola Davies**  
**Cyfarwyddwr Cynorthwyol**  
**Partneriaethau**  
**Bwrdd Iechyd Cwm Taf**

<b>Rhagair gan Asiantaethau Partner</b>	<b>2</b>
<b>Datganiad Gweledigaeth</b>	<b>3</b>
<b>Amcanion Strategol i Ofalwyr</b>	<b>4</b>
<b>Amcan 1</b> Gwybodaeth a Chyngor	<b>5</b>
<b>Amcan 2</b> Adnabod Gofalwyr a Chydnabod eu Cyfraniadau	<b>6</b>
<b>Amcan 3</b> Cefnogaeth ar gyfer Iechyd a Lles Gofalwyr	<b>7</b>
<b>Amcan 4</b> Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth	<b>8</b>
<b>Amcan 5</b> Pontio a Chynhwysiant Cymdeithasol	<b>9</b>
<b>Amcan 6</b> Ymgysylltu ac Ymgynghori	<b>10</b>
<b>Mesur Cynnydd y Strategaeth</b>	<b>11</b>
<b>Camau Nesaf a Deilliannau</b>	<b>12</b>
<b>Deddfwriaeth</b>	<b>13</b>
<b>Mesur Gofalwyr</b>	<b>14</b>





# Strategaeth Gofalwyr

Merthyr Tudful

2012 - 2017

